# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 7 Tachwedd 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 8 Tachwedd 2022 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 15 Tachwedd 2022 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Arweinydd y Cyngor

---

**PWNC – Penodi Pencampwr Pobl Hŷn a Phencampwr Cefn Gwlad ac Amgylchedd**

---

**PENDERFYNIAD**

Penodi'r Cynghorydd Dilwyn Morgan yn Bencampwr Pobl Hŷn am dymor y Cyngor hwn hyd ddiwedd Ebrill 2027.

Penodi'r Cynghorydd Angela Russell yn Bencampwr Cefn Gwlad ac Amgylchedd am dymor y Cyngor hwn hyd ddiwedd Ebrill 2027.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Sioned Mai Jones,<br>Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 7 Tachwedd 2022 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Penodi Pencampwr Pobl Hŷn a Phencampwr Cefn Gwlad ac Amgylchedd**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Penodi’r Cynghorydd Dilwyn Morgan yn Bencampwr Pobl Hŷn am dymor y Cyngor hwn hyd ddiwedd Ebrill 2027.

Penodi’r Cynghorydd Angela Russell yn Bencampwr Cefn Gwlad ac Amgylchedd am dymor y Cyngor hwn hyd ddiwedd Ebrill 2027.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae’n statudol ofynnol i’r Cyngor benodi Pencampwr i eirioli dros Bobl Hŷn.

Mae sawl cyngor wedi penodi cynghorwyr yn bencampwyr mewn gwahanol feysydd. O bryd i’w gilydd daw cais gan wahanol grwpiau am enwebu aelod o’r Cyngor yn bencampwr.

Diben cael pencampwyr yw:

1. I siarad dros garfanau fyddai heb eu cynrychioli'n llawn fel arall.
2. I gadw rhai materion ar flaen gwaith y Cyngor er nad oes yr un Cynghorydd na phwyllgor yn gyfrifol amdanyn nhw.
3. I gadw cyswllt â’r Cabinet a dod a gwybodaeth arbenigol i’r Aelodau Cabinet.

Dyma'r unig ddau bencampwr fydd yn cael eu penodi gan y Cyngor am y cyfnod 2022 hyd at Ebrill 2027.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Penodir y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn Bencampwr Pobl Hŷn i fod yn hyrwyddwr y maes hwn oherwydd ei diddordeb a'i brofiad fel yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Penodir y Cynghorydd Angela Russell yn Bencampwr Cefn Gwlad ac Amgylchedd i fod yn hyrwyddwr y maes hwn oherwydd ei diddordeb a'i phrofiad blaenorol fel Pencampwr yn y maes.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid – Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol

Swyddog Monitro – Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb y penderfyniad sydd yn cyd fynd a chanllawiau Llywodraeth Cymru.